# Project Gwella Lôn Pum Milltir

**Hydref 2018 – Diweddariad gan Andrew M. Davies, Rheolwr Project**

Mae canlyniadau'r haf braf yn amlwg ar y safle. Cwblhawyd y gwaith o symud 100,000m3 o ddeunydd oddi ar-lein i greu proffil y ffordd newydd yn gynt na'r amser disgwyliedig.

Pan gychwynnodd fy nhîm wrth y project hwn ym mis Ionawr 2018, roedd y tywydd gwlyb ofnadwy'n peri pryder; fodd bynnag, diolch i'r haf cynnes a sych, bu modd cwblhau gwaith tir traddodiadol a'r tîm ar y safle mewn hwyliau da.

Gyda'r gwaith tir wedi ei gwblhau, mae'r tîm project wrth ei gwaith ers tro yn draenio'r briffordd ar ei dwy ochr, ac mae'r ffosydd gorlif a'r pyllau wedi eu creu yn barod.




Mae'r gwaith ar y bont uwchlaw hefyd wedi cychwyn; mae'r pentanau concrid ar y safle ac mae'r gwaith dur yn mynd rhagddo oddi ar y safle. Cynllunnir gosod y bont (y trawstiau dur) toc cyn Nadolig 2018.



Mae rhan sylweddol o'r gwaith hefyd wedi cychwyn yn y de, o'r Ganolfan Heboga i gylchfan Waycock. Yma, cychwynnwyd y gwaith lledu yn ddiweddar, a chliriwyd y coed cyn bwrw iddi â'r gwaith tir sy'n mynd rhagddo nawr. Bydd angen cau amryw o ffyrdd er mwyn cwblhau y rhan hon o'r gwaith, a chyhoeddir hyn o flaen law, ar ôl cael cymeradwyaeth.




Dros y misoedd diwethaf, buom yn gweithio ar y lôn beics/troedffordd a aiff ar hyd y briffordd gyfagos yn y pen gogleddol. Bu angen defnyddio goleuadau traffig dros dro bob dydd er mwyn gwneud hyn a diolchwn i chi am eich amynedd wrth gydymffurfio.




Mae'r project yn cynnal dyddiad galw heibio ar ddydd Mercher cyntaf pob mis ac mae croeso i chi ddod draw i swyddfeydd y safle i drafod materion gyda thîm y safle.

**Mae croeso i chi ddod i weld neu ffonio Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus penodol y safle, Neil Evans, am ragor o wybodaeth: 0330 041 4635.**